**PAPURAU BUSNES**

**Rhan 1 – Adran F**

**Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 7 Mehefin 2000 i'w hateb ar 21 Mehefin 2000**

**R Yn dynodi bod yr aelod wedi datgan buddiant.**

**W Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

Gofyn i Ysgrifennydd y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

1. **Lynne Neagle (Tor-faen);** Pa gynlluniau sydd ar y gweill i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd yng Nghymru? (OAQ5954)
2. **Ieuan Wyn Jones (Ynys Môn);** A wnaiff hi ddatganiad byr ar gynnydd y rhaglen i ailgartrefu pobl ag anableddau dysgu. (OAQ5921)
3. **Elin Jones (Ceredigion);** A wnaiff hi ddatganiad byr ar rôl Canolfan Iechyd Cymru. (OAQ5937)
4. **Richard Edwards (Preseli Sir Benfro);** Sut mae hi'n bwriadu cael gwared ar restri aros mewn meysydd lle rhoddir triniaeth arferol megis cataractau a chluniau newydd. (OAQ5952)
5. **Jane Davidson (Pontypridd);** Yn dilyn Diwrnod Gweithredu Cymru a gynhaliwyd yn ddiweddar gan y Gymdeithas MS, sut mae'r Cynulliad yn bwriadu sicrhau y rhoddir ystyriaeth lawn i anghenion cleifion ag arnynt MS. (OAQ5846)
6. **Cynog Dafis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A yw hi wedi rhoi cyfarwyddyd i awdurdodau lleol ynghylch pwysigrwydd y drefn asesu i bobl ag anawsterau dysgu a'u cynhalwyr. (OAQ5931)
7. **Helen Mary Jones (Llanelli);** A oes ganddi gynlluniau i wella'r ddarpariaeth addysgol i bobl ag anableddau dysgu yng Nghymru. (OAQ5916)
8. **Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed);** Pa drafodaethau a gafodd ynghylch sicrhau na fydd neb yng Nghymru'n aros mwy na 18 mis am lawdriniaeth. (OAQ5845)
9. **Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Pa ddarpariaeth a wnaethpwyd ganddi i weithredu penderfyniad y Cynulliad ar 11 Ebrill 2000 i ddyrannu cyllid ychwanegol i Grwpiau Iechyd Lleol i fynd i'r afael â phroblem oedi cyn rhyddhau pobl o'r ysbyty. (OAQ5945)
10. **Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr);** A wnaiff hi ddatganiad byr ar oblygiadau iechyd bwyd wedi'i addasu'n enetig. (OAQ5930)

11. **Mick Bates (Sir Drefaldwyn);** Pa drafodaethau mae hi wedi eu cael ynghylch dyrannu cyllid ychwanegol i Grwpiau Iechyd Lleol er mwyn mynd i'r afael â'r oedi cyn rhyddhau cleifion o'r ysbyty o ganlyniad i benderfyniad y Cynulliad ar 11 Ebrill 2000. (OAQ5853)
12. **Richard Edwards (Preseli Sir Benfro);** A oes ganddi gynlluniau i sefydliadau sy'n cynnig gofal plant fod yn destun fframwaith rheoleiddio cyffredin. (OAQ5950)
13. **Pauline Jarman (Canol De Cymru);** A wnaiff hi ddatganiad byr ar gynnydd yr Ymgyrch Hysbysebu Rhoi'r Gorau i Ysmygu. (OAQ5934)
14. **David Melding (Canol De Cymru);** A wnaiff hi ddatganiad ar y targedau iechyd a nodwyd yn Gwell Cymru. (OAQ5861)
15. **Christine Humphreys (Gogledd Cymru);** A wnaiff hi ddatganiad ar y ffigurau diweddaraf ar gyfer amseroedd aros. (OAQ5841)
16. **Gareth Jones (Conwy);** A yw hi wedi derbyn copi o Gynllun Strategol Awdurdod Iechyd Gogledd Cymru. (OAQ5935)
17. **Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** Beth yw polisi'r weinyddiaeth ar leihau rhestri aros. (OAQ5859)
18. **Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);** A oes ganddi gynlluniau i ail ddiffinio gofal nyrsio a gofal personol yng Nghymru. (OAQ5925)
19. **Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa sicrwydd fydd hi'n ei geisio er mwyn sicrhau na fydd bwyd wedi'i addasu'n enetig yn niweidio ein hiechyd. (OAQ5951)
20. **Jenny Randerson (Canol Caerdydd);** A wnaiff hi ddatganiad ynghylch y bwriad i gau Adain Orllewinol Ysbyty Brenhinol Caerdydd, gan golli 80 yn rhagor o welyau, a'r effaith a gaiff hyn ar restri aros a derbyniadau meddygol brys. (OAQ5865)
21. **Janet Davies (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff ddatganiad byr ar yr angen am safonau derbyniol o ran hylendid mewn ysbytai. (OAQ5922)
22. **Christine Chapman (Cwm Cynon);** Pa asesiad a wnaethpwyd ganddi o safon gofal diabetes yng Nghymru. (OAQ5948)
23. **Owen John Thomas (Canol De Cymru);** A wnaiff ddatganiad ar restri aros am lawdriniaeth y galon yn ardal Canol De Cymru. (OAQ5946)
24. **Cynog Dafis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A ydyw wedi cyfrannu at ddatblygu'r papur ymgynghori 'Rhoi Cymunedau'n Gyntaf'. (OAQ5910)
25. **Elin Jones (Ceredigion);** A yw'n bwriadu ymestyn y cyfnod cofrestru 15 mis ar gyfer deintyddiaeth yng Nghymru. (OAQ5938)
26. **Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Pa gamau sy'n cael eu cymryd i ddiogelu staff ysbytai rhag trais a chamdriniaeth yn y gwaith. (OAQ5944)
27. **Dafydd Wigley (Caernarfon);** A wnaiff ddatganiad byr ar gynnydd y cynlluniau i atal y ffliw rhag effeithio'n ormodol ar yr NHS yn ystod y gaeaf nesaf. (OAQ5919)
28. **William Graham (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff roi adroddiad am yr Uned Arennau yn Ysbyty'r Waun. (OAQ5917)
29. **Dafydd Wigley (Caernarfon);** Sut mae'r Strategaeth Adnoddau Dynol yn mynd i'r afael â'r materion recriwtio a chadw staff sy'n effeithio ar wyddonwyr labordai meddygol. (OAQ5911)
30. **Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** A wnaiff ddatganiad ar berfformiad cymharol NHS Cymru o'i gymharu â'r NHS yn Lloegr. (OAQ5860)

Gofyn i Ysgrifennydd y Cynulliad dros Addysg a Hyfforddiant

**1. Richard Edwards (Preseli Sir Benfro);** A oes ganddo gynlluniau i ymchwilio i ffyrdd o annog mwy o bobl ifanc sydd wedi'u heithrio'n gymdeithasol i symud ymlaen i addysg uwch. (OAQ5897)

**2. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed);** Sut y bydd yn sicrhau bod aelodau Llais Ifanc/Young Voice yn y dyfodol yn cynrychioli pob ardal o Gymru. (OAQ5895)

**3. John Griffiths (Dwyrain Casnewydd);** Pa ystyriaeth y mae wedi'i rhoi i sicrhau bod mwy o fyfyrwyr o gefndiroedd cymharol ddifreintiedig yng Nghymru yn elwa o addysg prifysgol. (OAQ5902)

**4. Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Pa fesurau sydd ar gael i'r Cynulliad Cenedlaethol i liniaru effaith ffïoedd hyfforddi ar ddyledion myfyrwyr. (OAQ5887)

**5. Cynog Dafis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Beth yw rôl Bwrdd yr Iaith Gymraeg yng ngrwpiau llinyn prosiect gweithredu ETAP. (OAQ5871)

**6. Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa gynlluniau sydd ganddo i liniaru baich dyled ymhlith myfyrwyr yng Nghymru. (OAQ5892)

**7. Brian Gibbons (Aberafan);** A wnaiff roi adroddiad ar hynt y broses o sefydlu haen ranbarthol i'r Cyngor Addysg a Hyfforddiant. (OAQ5851)

**8. Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Pa drafodaethau y mae wedi'u cael â'r Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg mewn perthynas ag effaith Adroddiad Cubie ar Addysg Uwch yng Nghymru. (OAQ5888)

**9. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);** Pa drafodaethau y mae wedi'u cael mewn perthynas â sefydlu Corff Datblygu Addysg Cenedlaethol. (OAQ5882)

**10. Janet Ryder (Gogledd Cymru);** A wnaiff ddatganiad ar sut mae'r gwaith o gynhyrchu safonau ar gyfer Llyfrgelloedd Cyhoeddus yng Nghymru'n mynd rhagddo. (OAQ5906)

**11. Janet Ryder (Gogledd Cymru);** Pa sefydliadau a chyrff addysg fu'n ymwneud â gwaith amryw Grwpiau Llinyn y Prosiect Gweithredu ETAP. (OAQ5883)

**12. Jane Davidson (Pontypridd);** Sawl Canolfan Ddysgu wedi'u darparu trwy gyfrwng y Brifysgol ar gyfer Diwydiant sydd gan Gymru ar hyn o bryd, a faint yn fwy a gynllunnir. (OAQ5850)

**13. Dafydd Wigley (Caernarfon);** Pa gynlluniau sydd ganddo i hybu'r broses o wella gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru. (OAQ5904)

**14. Janice Gregory (Ogwr);** A wnaiff ystyried ailgyflwyno'r Cynlluniau Menter Cymunedol. (OAQ5903)

**15. Jenny Randerson (Canol Caerdydd);** A oes ganddo unrhyw gynlluniau i gyflwyno Lwfansau Cynhaliaeth Addysg yng Nghymru. (OAQ5867)

**16. Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** A wnaiff ddatganiad ar 'elitiaeth' ym Mhrifysgolion Cymru. (OAQ5857)

**17. Owen John Thomas (Canol De Cymru);** Pa drafodaethau y mae wedi eu cael gyda threfnydd yr Eisteddfod Genedlaethol yngln â chyllido'r digwyddiad yn y dyfodol. (OAQ5889)

**18. Peter Rogers (Gogledd Cymru);** Beth yw ei gynlluniau ar gyfer annog colegau Cymru i gynnig cyrsiau sy'n berthnasol i ddatblygu gweithlu modern medrus ymhellach. (OAQ5878)

**19. Mick Bates (Sir Drefaldwyn);** Sut wnaiff sicrhau fod aelodau Llais Ifanc/Young Voice yn y dyfodol yn cynrychioli pob rhanbarth yng Nghymru. (OAQ5876)

**20. Lorraine Barrett (De Caerdydd a Phenarth);** All yr Ysgrifennydd wneud datganiad ar faint o arian sy'n cael ei wario yn flynyddol yng Nghymru i hyrwyddo chwaraeon ac athletau ar gyfer menywod. (OAQ5894)

**21. Huw Lewis (Merthyr Tudful a Rhymni);** A yw Ysgrifennydd y Cynulliad wedi cael unrhyw drafodaethau gyda sefydliadau addysg uwch yng Nghymru yngln â chyflwyno 'llysgenhadon yn y gymuned' ar gyfer rhoi cyfle i fwy o bobl fanteisio ar addysg uwch mewn cymunedau difreintiedig. (OAQ5899)

**22. David Davies (Mynwy);** Pa gamau y mae'n eu cymryd er mwyn annog mwy o bobl hyfforddi i fod yn athrawon. (OAQ5886)

**23. David Davies (Mynwy);** A wnaiff ddatganiad yngln â'i bolisïau Iaith. (OAQ5875)

**24. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed);** Pa drafodaethau y mae wedi eu cael yngln ag effaith ffïoedd hyfforddi ar fyfyrwyr yng Nghymru. (OAQ5896)

**25. Pauline Jarman (Canol De Cymru);** A wnaiff ddatganiad ar ddatblygiad Grwpiau Llinyn Prosiect Gweithredu ETAP. (OAQ5881)

**26. Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff sylw ar unrhyw gynlluniau i ddefnyddio arian y Gronfa Cyfleoedd Newydd fel arian punt am bunt ar gyfer prosiectau Amcan Un. (OAQ5885)

**27. Cynog Dafis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa rôl y mae sefydliadau addysg Cymru wedi ei chwarae ym mhrosiect gweithredu ETAP .(OAQ5870)

**28. Jenny Randerson (Canol Caerdydd);** A wnaiff ddatganiad ar y cynnig oddi wrth y Russel Group of Universities eu bod angen incwm o hyd at £6,000 yn ychwanegol oddi wrth ffïoedd hyfforddi er mwyn adennill arian a gollwyd. (OAQ5866)

**29. Dafydd Wigley (Caernarfon);** Pa drafodaethau y mae wedi cael gydag ACCAC yngln ag asesiadau yng Nghymru. (OAQ5874) [W]

**30. Lorraine Barrett (De Caerdydd a Phenarth);** A all wneud datganiad ar y cyfarfod chwemisol cyntaf gyda chynrychiolwyr o Lywodraeth y DU a’r gweinyddiaethau datganoledig eraill i drafod datblygiad y Fargen Newydd. (OAQ5893)